



Mae Budd-dal Tai yn newid o 1 Ebrill 2013 i bobl sy'n rhentu gan landlord sector cymdeithasol.

➤ Mynnwch wybod sut y gallai'r newidiadau effeithio arnoch chi.

Beth fydd y newidiadau yn ei olygu?

Mae'r cymhorthdal ystafell sbâr yn cael ei dynnu o Fudd-dal Tai i bobl o oedran gweithio sy'n rhentu gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai cofrestredig neu landlord cymdeithasol cofrestredig arall. Mae oedran gweithio yn golygu unrhyw un sydd o dan oedran credyd pensiwn y wladwriaeth.

Bydd y rheolau newydd yn cyfyngu ar faint y llety y gallwch gael Budd-dal Tai ar ei gyfer, yn seiliedig ar nifer y bobl yn eich cartref.

Mae'r rheolau newydd yn caniatáu un ystafell ar gyfer:

- pob cwpl sy'n oedolion (wedi priodi neu beidio)
- unrhyw oedolyn arall 16 oed neu drosodd
- unrhyw ddau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed
- unrhyw ddau blentyn o dan 10 oed
- unrhyw blentyn arall, (ar wahân i blentyn maeth neu blentyn y mae ei brif gartref rhywle arall)
- gofalwr (neu dîm o ofalwyr) nad yw'n byw gyda chi ond sy'n gofalu amdanoch chi neu eich partner dros nos

Cyhoeddwyd ar 12 Mawrth 2013 y buasai cael gwared o'r rheolau cymhorthdal ystafell sbâr hefyd yn cael eu hegluro ar gyfer dau grŵp penodol arall o dderbynwyr budd-dal tai - gofalwyr maeth a phersonél y lluoedd arfog:

- Os ydych chi neu'ch partner yn gofalu am blentyn maeth neu wedi cael eich derbyn fel gofalwr maeth ond heb blentyn sy'n byw gyda chi bydd ystafell wely ychwanegol yn cael ei ganiatáu cyn belled bod y cyfnod heb blentyn ddim yn mynd yn fwy na 52 wythnos.
- Bydd plant sy'n oedolion sydd yn y lluoedd arfog ac yn parhau i fyw gyda'u rhieni yn cael eu trin fel eu bod yn parhau i fyw yn y cartref hyd yn oed pan fyddant wedi cael eu hanfon ar weithrediadau. Mae hyn yn golygu na fydd y rheolau meini prawf maint yn gymwys i'r ystafell y meddianir fel arfer gan yr aelod o'r lluoedd arfog.

Plant Anabl - Os oes gennych blentyn sydd yn eich barn chi yn methu rhannu ystafell wely oherwydd anabled neu gyflwr meddygol efallai y bydd gennych hawl i gael ystafell ychwanegol. Bydd angen i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol ac fe ofynnir i chi am dystiolaeth feddygol i gefnogi eich cais.

Pryd fydd y newidiadau yn effeithio arnaf?

Bydd tynnu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn dechrau ar 1 Ebrill 2013.

Os gallai'r rheolau newydd hyn effeithio arnoch, bydd eich awdurdod lleol yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r wybodaeth sydd ganddo. Yna, bydd yn ysgrifennu eto i gadarnhau beth fydd y newidiadau i'ch Budd-dal Tai.

Mae'n bwysig eich bod yn dechrau ystyried eich opsiynau nawr ac yn siarad â'ch landlord neu awdurdod lleol lle bo angen.

Sut allai'r newidiadau effeithio arnaf?

Mae'n bosibl y gallai swm y Budd-dal Tai a gewch i dalu eich rhent ac unrhyw daliadau gwasanaeth ostwng.

Os penderfynir fod gennych fwy o ystafelloedd gwely nag sydd eu hangen ar eich cartref (o dan y rheolau newydd hyn), caiff eich Budd-dal Tai ei ostwng:

- 14% os oes gennych ystafell wely ychwanegol
- 25% os oes gennych ddwy ystafell wely ychwanegol neu fwy

Os ydych yn cael Budd-dal Tai neu'n ystyried gwneud cais amdano, neu'n meddwl symud tŷ, mae angen i chi ystyried y newid hwn cyn i chi adnewyddu eich cytundeb tenantiaeth neu ymrwymo i gytundeb newydd.

Beth ddylwn i ei wneud nawr?

- Siaradwch â Gwasanaeth Budd-dal Tai/
Gwasanaeth Tai eich awdurdod lleol cyn gynted
â phosibl. Gallant eich helpu i ganfod sut yn
union y bydd y newidiadau hyn yn effeithio
arnoch a thrafod eich opsiynau.
- Mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn rhoi ystod
eang o gyngor cyfrinachol. I ddod o hyd i'ch
Canolfan Cyngor ar Bopeth leol, edrychwch yn
y llyfr ffôn neu'r Yellow Pages, neu ewch i'w
gwefan yn www.citizensadvice.org.uk or
www.cas.org.uk ar gyfer yr Alban.
- Mae Shelter yn rhoi cyngor cyfrinachol ar dai,
budd-daliadau lles a dyledion drwy rwydwaith
o wasanaethau cynghori; gallwch ffonio'r Llinell
Gymorth Tai radffôn ar 0808 800 4444 rhwng
8am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a
rhwng 8am a 5pm ar ddydd Sadwrn a dydd Sul
neu fynd ar-lein i:
- www.sheltercymru.org.uk
- england.shelter.org.uk/get advice
- scotland.shelter.org.uk/getadvice
- TEfallai bod canolfannau cynghori eraill yn eich
ardal, neu efallai bod gan eich awdurdod lleol
wasanaeth hawliau lles. Edrychwch yn y llyfr
ffôn neu ar wefan eich awdurdod lleol.
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal
Tai yn www.gov.uk/cymraeg.

Rhagor o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â
Gwasanaeth Budd-dal Tai/Gwasanaeth Tai eich
awdurdod lleol.

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu'r holl
amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i
sicrhau bod y daflen yn gywir o'r dyddiad isod. Mae'n bosibl y
bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod
yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r
gyfraith. Rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor annibynnol
cyn gwneud penderfyniadau ariannol ar sail y canllaw hwn.

© Hawlfraint y Goron
ISBN 978-1-78153-441-0
HB SSSC1W (Mawrth 2013)